# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 10.07.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams, David Griffiths, John Griffiths, Malcolm Hills.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.06.19 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Kevin Goodchild **Eilio** – Keith Carroll **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.06.19):**
   a) **Parc Carafanau Sunbeach, Llwyngwril -** ateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau eu bod wedi nodi sylwadau y Cyngor Cymuned ynglŷn â slabiau concrit wedi eu gosod ar yr hawl tramwy i lawr i'r traeth, a'u bod wedi gofyn i'r Parc Cenedlaethol Eryri edrych i mewn i'r mater.

   b) **Parc Carafanau Sunbeach, Llwyngwril -** ateb wedi ei dderbyn gan y Parc Cenedlaethol Eryri
      I. *"pe bai perchnogion Sunbeach i brynu unrhyw dir ychwanegol wrth ymyl y safle presennol yn y dyfodol, nid yw hyn yn golygu y gallant osod carafanau ar y tir hwn yn awtomatig ".*
      II. *"o edrych ar y drwydded safle a gyhoeddwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Sunbeach - mae ganddyn nhw drwydded i leoli dim mwy na 455 o garafanau statig".*

   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â'r Parc Cenedlaethol Eryri eto i'w gwneud yn ymwybodol fod perchnogion Sunbeach eisoes wedi prynu tir ychwanegol, wrth ymyl y safle presennol, â'u bod yn ei ddefnyddio fel man cerdded cwn, ar hyn o bryd.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Dail Dysynni –** llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned = £25.00.
   b) **GDPR -** cadarnhad eu bod wedi derbyn taliad o £40.00 i gofrestru'r Cyngor Cymuned hefo'r ICO.
   c) **Rhwystrau Diogelwch ar y ffordd ger Friog** – llythyr gan Dafydd Elis-Thomas gyda diweddariad gan Net Work Rail.
   d) **Cyngor Gwynedd** – Rhybudd Cyhoeddus – Rheoliadau Adolygu Dosbarthiadau Pleidleisio a Safleoedd Pleidleisio.
   e) **Cyngor Gwynedd -** ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau eu bod wedi derbyn sylwadau'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r wal derfyn ger Golwg y Môr, Llwyngwril, a bod trefniadau mewn llaw i drwsio'r wal.
   f) **Parc Cenedlaethol Eryri -** derbyn gwybodaeth ynglŷn ag Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Draft – CCA 4: Tai Fforddiadwy ➞ anfon y wybodaeth ymlaen i Louise Hughes ✓
   g) **ROSPA –** Adroddiad wedi ei dderbyn ar archwiliad blynyddol y Cae Chwarae yn Llwyngwril – 17.06.19.

6. **Materion Cynllunio:**
   a) **Cais NP5/69/327 - Tir i Gefn 12-13 Gwastadgoed Isaf, Llwyngwril -** newid defnydd tir i ymestyn cwrtil domestig
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Mehefin 2019 yn gywir.
   **Cynnig -** Keith Carroll **Eilio -** Kevin Goodchild **Arwyddwyd -** Huw Davies.

   a) **Siec 100757** – Talu ROSPA Playsafe - archwiliad blynyddol y cae chwarae Llwyngwril = **£94.80.**

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyn adroddiad Louise Hughes.
   **a)** Louise Hughes yn adrodd fod Cyngor Gwynedd eisio ymddiheuro i aelodau'r gymuned eu bod wedi cau'r ddwy ffordd, ar yr un amser, yn ddiweddar, (ffordd Tal-y-Llyn a ffordd yr arfordir am Ddolgellau) er mwyn ail-wynebu'r ffyrdd.
   **b)** Cadarnhaodd Louise Hughes fod Cyngor Gwynedd yn trefnu i drîn y chwyn ar ochr y ffordd rhwng Rhoslefain a Llwyngwril yn y dyfodol agos.
   **c)** Adroddodd Louise Hughes ei bod wedi derbyn ambell gwyn gan y cyhoedd am garafanau a chartrefi symudol yn parcio dros nos, ar ochr y ffyrdd lleol …..

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   **a)** **Model Brotocol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol -** wedi ei dderbyn gan Un Llais Cymru.
   Aelodau'r Cyngor Cymuned wedi derbyn copi o'r cynllun.
   **Penderfyniad** ➞ mabwysiadu'r cynllun ar gyfer delio â chwynion lefel isel a dderbynnir o fewn y Cyngor Cymuned.
   **b)** **Meinciau yn Llwyngwril** – diolch i Keith Carroll am baentio'r ddwy fainc ar lwybyr y perthi.
   **c)** **Llwybr y traeth, ger Borthwen** - adroddodd Keith Carroll fod y llwybr blaendraeth yma wedi dirywio yn ofnadwy yn ddiweddar, a gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am y llwybr yma??
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â adran Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd, i'w gwneud yn ymwybodol.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 11.09.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**